

# Amlinelliad o'r Cymhwyster TGAU Y Gwyddorau (Dwyradd) – Fersiwn Ymgynghori



Yn arbennig i Gymru.  
Yn barod i'r byd.

## Cyflwyniad

Yn y ddogfen hon mae trosolwg ar lefel uchel o'r cymhwyster CBAC TGAU Y Gwyddorau (Dwyradd) sydd ar gael i'w addysgu am y tro cyntaf o fis Medi 2026.

Mae'n seiliedig ar [Feini Prawf Cymeradwyo](#) Cymwysterau Cymru (mae adrannau allweddol wedi'u cynnwys yn Atodiad 1). **Rhaid** i'n cymhwyster ni fodloni'r gofynion hyn.

Bydd yr amlinelliad hwn o'r cymhwyster yn gweithio fel canllaw ar gyfer datblygu'r Fanyleb a'r Deunyddiau Asesu Enghreifftiol (DAE). Mae'n bosibl y bydd angen ailedrych ar agweddau ar yr amlinelliad os bydd materion yn codi yn ystod y broses ddatblygu.

## Trosolwg o'r Cymhwyster

Bwriad y cymhwyster TGAU Y Gwyddorau (Dwyradd) yw:

- esbonio ffenomenau yn wyddonol i ddangos sut mae'r byd yn gweithio
- adeiladu a gwerthuso dyluniadau ar gyfer ymholiadau gwyddonol a dehongli data a thystiolaeth wyddonol yn feirniadol
- ymchwilio, gwerthuso a defnyddio gwybodaeth wyddonol i wneud penderfyniadau gwybodus<sup>1</sup>.

Bydd y cymhwyster TGAU Y Gwyddorau (Dwyradd) yn cefnogi'r Cwricwlwm i Gymru drwy wneud y canlynol:

- cefnogi'r datganiadau o'r hyn sy'n bwysig, gan roi cyfle i ddysgwyr ymgysylltu â'r canlynol:
  - chwilfrydedd – mae bod yn chwilfrydig a chwilio am atebion yn hanfodol i ddeall a rhagfynegi ffenomenau
  - pethau byw – mae'r byd o'n cwmpas yn llawn pethau byw sy'n dibynnu ar ei gilydd i oroesi
  - mater – mae mater, a'r ffordd y mae'n ymddwyn, yn diffinio ein bydysawd ac yn ffurfio ein bywydau
  - grymoedd – mae grymoedd ac egni yn gosod sail i ddeall ein bydysawd.
- cefnogi'r egwyddorion cynnydd drwy wneud y canlynol:
  - datblygu gwybodaeth a dealltwriaeth o gysyniadau gwyddonol
  - defnyddio, cymhwyso a gwerthuso sgiliau ymholi gwyddonol
  - dod yn fwy effeithiol fel dysgwr, er mwyn datrys problemau gwyddonol yn fwy annibynnol
  - gwneud cysylltiadau ac archwilio cyd-destunau newydd, gan ystyried effeithiau gweithredoedd gwyddonol.

---

<sup>1</sup>Addaswyd o Fframwaith Gwyddoniaeth OECD PISA 2025

## Strwythur y Cymhwyster

### Uned 1: Bioleg – Sail Bywyd

Arholiad ysgrifenedig (mewn haenau)  
14% o'r cymhwyster  
Ar gael yn ystod blwyddyn gyntaf y cwrs  
Asesiad allanol, i'w farcio gan CBAC

### Uned 2: Cemeg – Sylweddau Cemegol a Sut Maen Nhw'n Ymddwyn

Arholiad ysgrifenedig (mewn haenau)  
14% o'r cymhwyster  
Ar gael yn ystod blwyddyn gyntaf y cwrs  
Asesiad allanol, i'w farcio gan CBAC

### Uned 3: Ffiseg – Grymoedd, Mudiant a'r Bydysawd

Arholiad ysgrifenedig (mewn haenau)  
14% o'r cymhwyster  
Ar gael yn ystod blwyddyn gyntaf y cwrs  
Asesiad allanol, i'w farcio gan CBAC

### Uned 4 Bioleg – Parhad Bywyd

Arholiad ysgrifenedig (mewn haenau)  
16% o'r cymhwyster  
Ar gael yn y flwyddyn astudio olaf  
Asesiad allanol, i'w farcio gan CBAC

### Uned 5: Cemeg – Bondio Cemegol, Adweithiau ac Adnoddau

Arholiad ysgrifenedig (mewn haenau)  
16% o'r cymhwyster  
Ar gael yn y flwyddyn astudio olaf  
Asesiad allanol, i'w farcio gan CBAC

### Uned 6: Ffiseg – Tonnau, Trydan ac Egni

Arholiad ysgrifenedig (mewn haenau)  
16% o'r cymhwyster  
Ar gael yn y flwyddyn astudio olaf  
Asesiad allanol, i'w farcio gan CBAC

### Uned 7: Ymholiad Gwyddonol

Asesiad ymarferol o wyddoniaeth  
10% o'r cymhwyster  
I'w gwblhau yn y flwyddyn astudio olaf  
Asesiad allanol, i'w farcio gan CBAC

Dyma'r canrannau ar gyfer amcanion asesu Y Gwyddorau (Dwyradd):

<b>AA1</b>	Arddangos gwybodaeth a dealltwriaeth o syniadau, prosesau, technegau a gweithdrefnau gwyddonol.	25%
<b>AA2</b>	Defnyddio gwybodaeth a dealltwriaeth o syniadau, prosesau, technegau a gweithdrefnau gwyddonol	50%
<b>AA3</b>	Dadansoddi, dehongli a gwerthuso gwybodaeth, prosesau, technegau a gweithdrefnau gwyddonol	25%

Cymhwyster unedol fydd hwn.


# Gwybodaeth am Unedau

## Uned 1 – Bioleg – Sail Bywyd

### Pwrpas yr uned hon yw:

- archwilio ffenomenau'n wyddonol i esbonio sut mae'r byd byw yn gweithio
- cymhwyso gwybodaeth, dealltwriaeth a sgiliau o'r cynnwys bioleg at gyd-destunau bywyd go iawn
- dehongli data a thystiolaeth wyddonol yn feirniadol
- gwerthuso gwybodaeth wyddonol i wneud penderfyniadau gwybodus.

Bydd yr uned hon yn canolbwyntio ar:



Bydd yr uned yn cael ei hasesu drwy arholiad a fydd ar gael yn y gyfres haf yn y flwyddyn astudio gyntaf. Bydd y mathau o gwestiynau yn targedu'r holl Amcanion Asesu.

Ni fydd opsiynau yn yr uned hon.


Bydd haenau i'r arholiad – haen uwch a haen sylfaenol.

## Uned 2 – Cemeg – Sylweddau Cemegol a Sut Maen Nhw'n Ymddwyn

### Pwrpas yr uned hon yw:

- archwilio ffenomenau'n wyddonol i esbonio sut mae mater yn diffinio'r bydysawd
- cymhwyso gwybodaeth, dealltwriaeth a sgiliau o'r cynnwys cemeg at gyd-destunau bywyd go iawn
- dehongli data a thystiolaeth wyddonol yn feirniadol
- gwerthuso gwybodaeth wyddonol i wneud penderfyniadau gwybodus.

Bydd yr uned hon yn canolbwyntio ar:



Bydd yr uned yn cael ei hasesu drwy arholiad a fydd ar gael yng nghyfres yr haf yn y flwyddyn astudio gyntaf. Bydd y mathau o gwestiynau yn targedu'r holl Amcanion Aseu.

Ni fydd opsiynau yn yr uned hon.


Bydd haenau i'r arholiad – haen uwch a haen sylfaenol.

### Uned 3 – Ffiseg – Grymoedd, Mudiant a'r Bydysawd

#### Pwrpas yr uned hon yw:

- archwilio ffenomenau'n wyddonol i esbonio grymoedd ac egni
- cymhwyso gwybodaeth, dealltwriaeth a sgiliau o'r cynnwys ffiseg at gyd-destunau bywyd go iawn
- dehongli data a thystiolaeth wyddonol yn feirniadol
- gwerthuso gwybodaeth wyddonol i wneud penderfyniadau gwybodus.

Bydd yr uned hon yn canolbwyntio ar:



Bydd yr uned yn cael ei hasesu drwy arholiad a fydd ar gael yng nghyfres yr haf yn y flwyddyn astudio gyntaf. Bydd y mathau o gwestiynau yn targedu'r holl Amcanion Asesu.

Ni fydd opsiynau yn yr uned hon.


Bydd haenau i'r arholiad – haen uwch a haen sylfaenol.

## Uned 4 – Bioleg – Parhad Bywyd

### Pwrpas yr uned hon yw:

- archwilio ffenomenau'n wyddonol i esbonio sut mae'r byd byw yn gweithio
- cymhwyso gwybodaeth, dealltwriaeth a sgiliau o'r cynnwys bioleg at gyd-destunau bywyd go iawn
- dehongli data a thystiolaeth wyddonol yn feirniadol
- gwerthuso gwybodaeth wyddonol i wneud penderfyniadau gwybodus
- defnyddio gwybodaeth bresennol i wneud cysylltiadau a pherthnasoedd rhwng testunau Bioleg gwahanol

Bydd yr uned hon yn canolbwyntio ar:



Bydd yr uned yn cael ei hasesu drwy arholiad a fydd ar gael yn y gyfres haf yn y flwyddyn astudio olaf. Bydd y mathau o gwestiynau yn targedu'r holl Amcanion Asesu. Bydd yr asesiad hefyd yn cynnwys nifer bach o gwestiynau sy'n asesu'r cysylltiadau a'r perthnasoedd rhwng cynnwys y bydd dysgwyr wedi'i astudio yn Uned 1 (caiff y cynnwys ei nodi'n glir yn y fanyleb).

Ni fydd opsiynau yn yr uned hon.


Bydd haenau i'r arholiad – haen uwch a haen sylfaenol.

## Uned 5 – Cemeg – Bondio Cemegol, Adweithiau ac Adnoddau

### Pwrpas yr uned hon yw:

- archwilio ffenomenau'n wyddonol i esbonio sut mae mater yn diffinio'r bydysawd
- cymhwysu gwybodaeth, dealltwriaeth a sgiliau o'r cynnwys cemeg at gyd-destunau bywyd go iawn
- dehongli data a thystiolaeth wyddonol yn feirniadol
- gwerthuso gwybodaeth wyddonol i wneud penderfyniadau gwybodus
- defnyddio gwybodaeth bresennol i wneud cysylltiadau a pherthnasoedd rhwng testunau Cemeg gwahanol

Bydd yr uned hon yn canolbwyntio ar:



Bydd yr uned yn cael ei hasesu drwy arholiad a fydd ar gael yn y gyfres haf yn y flwyddyn astudio olaf. Bydd y mathau o gwestiynau yn targedu'r holl Amcanion Asesu. Bydd yr asesiad hefyd yn cynnwys nifer bach o gwestiynau sy'n asesu'r cysylltiadau a'r perthnasoedd rhwng cynnwys y bydd dysgwyr wedi'i astudio yn Uned 2 (caiff y cynnwys ei nodi'n glir yn y fanyleb).

Ni fydd opsiynau yn yr uned hon.

Bydd haenau i'r arholiad – haen uwch a haen sylfaenol.




## Uned 6 – Ffiseg – Tonnau, Trydan ac Egni

### Pwrpas yr uned hon yw:

- archwilio ffenomenau'n wyddonol i esbonio grymoedd ac egni
- cymhwyso gwybodaeth, dealltwriaeth a sgiliau o'r cynnwys ffiseg at gyd-destunau bywyd go iawn
- dehongli data a thystiolaeth wyddonol yn feirniadol
- gwerthuso gwybodaeth wyddonol i wneud penderfyniadau gwybodus
- defnyddio gwybodaeth bresennol i wneud cysylltiadau a pherthnasoedd rhwng testunau Ffiseg gwahanol

Bydd yr uned hon yn canolbwyntio ar:



Bydd yr uned yn cael ei hasesu drwy arholiad a fydd ar gael yn y gyfres haf yn y flwyddyn astudio gyntaf. Bydd y mathau o gwestiynau yn targedu'r holl Amcanion Asesu. Bydd yr asesiad hefyd yn cynnwys nifer bach o gwestiynau sy'n asesu'r cysylltiadau a'r perthnasoedd rhwng cynnwys y bydd dysgwyr wedi'i astudio yn Uned 3 (caiff y cynnwys ei nodi'n glir yn y fanyleb).

Ni fydd opsiynau yn yr uned hon.

Bydd haenau i'r arholiad – haen uwch a haen sylfaenol.

## Uned 7 – Ymholiad Gwyddonol

### Pwrpas yr uned hon yw:

- cynnal arbrofion gwyddonol ymarferol
- dehongli data a thystiolaeth wyddonol
- ymchwilio a chymhwyso gwybodaeth wyddonol
- cynllunio a gwerthuso dyluniadau ar gyfer ymholiad gwyddonol.

Mae ymholiad gwyddonol yn elfen annatod o'r cymhwyster. Mae cynnal arbrofion gwyddonol ymarferol ac ymholiadau yn ennyn diddordeb dysgwyr drwy gydol y cymhwyster drwy roi bywyd i'r hyn maen nhw'n ei ddysgu ac annog chwilfrydedd. Mae'r uned hon yn asesu'r sgiliau a ddatblygwyd drwy gydol y cymhwyster.

Bydd cynnwys pwnc o bob rhan o gymhwyster Y Gwyddorau yn rhan o'r asesiad.

Mae'r asesiad yn gofyn i ymgeiswyr wneud dwy o dair tasg bosibl (bydd modd dewis tasg o'r disgyblaethau bioleg, cemeg a ffiseg) a byddan nhw'n cael eu hasesu ym mis Ionawr/Chwefror yn y flwyddyn astudio olaf.

### Ystyriaeth o hydrinedd, ymgysylltiad, dibynadwyedd a dilysrwydd

Wrth ddatblygu'r amlinelliad hwn o'r cymhwyster arfaethedig, rydym wedi ystyried hydrinedd, ymgysylltiad, dibynadwyedd a dilysrwydd, a hefyd sut i gydbwysu'r ystyriaethau hyn yng nghyd-destun gofynion y Meini Prawf Cymeradwyo.

Maint y cymhwyster yw 240-280 ODA. Caiff y cynnwys a ddewisir ar gyfer pob uned ei ystyried yn unol â'r Oriau Dysgu dan Arweiniad er mwyn sicrhau bod modd ei addysgu o fewn yr amser. Bydd hyn hefyd yn cynnwys y sgiliau ymholi gwyddonol y dylid eu haddysgu ar draws y cymhwyster.

Yn ôl gofynion y Meini Prawf Cymeradwyo, mae angen i arholiad cyntaf bob disgyblaeth fod ar gael i'w sefyll ar ddiwedd Blwyddyn 10. Rhaid i'r ail arholiad ym mhob disgyblaeth gynnwys cwestiynau sydd â phwysoli uwch nag arholiad cyntaf y cymhwyster, ac i'w asesu ym mlwyddyn olaf y cymhwyster. Dosberthir y cynnwys ar draws y ddwy uned ym mhob disgyblaeth, gan ystyried pwysoli'r uned a'r amser addysgu sydd ar gael ym M110 a B111. Bydd hyn yn cefnogi dilyniant a dysgu cylchol, gan y bydd dysgwyr yn ailedrych ar wybodaeth bresennol o F110 ac yn ei chysylltu â'r dysgu newydd sy'n rhan o bob disgyblaeth ym M111. Wrth i ni fynd ati i gyd-awduro gydag athrawon a gweithwyr proffesiynol eraill yn y maes addysg gwyddonol, byddwn yn ystyried yn ofalus bod angen i ail arholiad pob disgyblaeth gynnwys gwestiynau sy'n galluogi dysgwyr i ddangos eu gwybodaeth a dealltwriaeth o berthnasoedd a chysylltiadau rhwng gwahanol destunau yn y ddisgyblaeth honno

Gan fod y Meini Prawf Cymeradwyo yn nodi bod yn rhaid i'r cymhwyster fod yn unedol, cynigiwn bod yr Asesiad Ymholiad Gwyddonol ar gael i ddysgwyr yn ystod cyfnod sydd ar ddechrau tymor y Gwanwyn. Bydd hyn yn caniatáu i ddysgwyr ennill profiad o sgiliau ymarferol ar ôl ymgymryd â nifer o ymholiadau asesu ymarferol yn ystod y flwyddyn astudio gyntaf a thymor yr hydref yn yr ail flwyddyn astudio. Bydd y cyfnod hwn y tu allan i'r cyfnodau arholi ar gyfer TGAU Y Gwyddorau ac asesiadau ymarferol eraill ar gyfer cymwysterau TAG.

Yn ystod tymor yr hydref yn yr ail flwyddyn astudio, bydd canolfannau'n cael rhestr offer ar gyfer yr asesiad ymarferol i gynorthwyo â'r gwaith paratoi. Mae darparu tair tasg yn rhoi hyblygrwydd i ganolfannau ystyried offer a pha bryd y bydd staff ar gael. Er ein bod yn cydnabod bod asesu ymarferol yn effeithio ar hydrinedd, gydag amserlennu a chael mynediad at offer yn aml yn anodd i ganolfannau, rydym wedi dod i'r casgliad mai dyma'r cyfnod amser mwyaf priodol i asesu'r sgiliau asesu ymarferol. Credwn fod yr arholiadau a'r asesiad ymholiad gwyddonol yn ddull dilys o asesu'r pwrpas a'r cynnwys oherwydd eu bod yn caniatáu i fyfyrwyr ddangos eu sgiliau a defnyddio'r hyn maen nhw wedi'i ddysgu mewn cyd-destunau gwyddonol priodol y tu hwnt i'r ystafell ddosbarth. Er mwyn sicrhau dibynadwyedd pob uned, byddwn yn sicrhau y bydd pob uned yn targedu'r un pwysoli o ran amcanion asesu dros amser.

Credwn y bydd pwrpas a chynnwys yr unedau bioleg, cemeg a ffiseg yn ddeniadol ac yn gallu cael eu hasesu'n ddilys drwy arholiad, ac y gall cymysgedd o fathau o gwestiynau ein helpu i'w gwneud mor ddilys â phosibl. Pan fyddwn yn datblygu asesiadau, byddwn yn sicrhau bod yr holl dasgau'n targedu'r lluniad perthnasol, eu bod yn gytbwys o ran y cynnwys yr ymdrinnir ag ef dros amser a bod yr eitemau asesu a'r canlyniadau dysgu'n cyfateb. Gosodir asesiad yr ymholiad gwyddonol mewn cyd-destunau a fydd yn ddeniadol i ddysgwyr ac yn ymwneud ag o leiaf dau o'r disgyblaethau gwyddoniaeth. Lle bynnag y bo'n briodol gwneud hynny, byddwn yn defnyddio data sydd ar gael i ni o ran sut y gweithredodd yr asesiad. I sicrhau eu bod yn ddibynadwy, byddwn ni'n gwneud yn siŵr bod yr unedau a arholir yn targedu'r un pwysoliadau o ran amcanion asesu a bod lefel y galw'n gyson ym mhob cyfres. Datblygir meini prawf marcio a bydd aseswyr yn cael eu hyfforddi o ran sut i'w cymhwysu'n gyson.

Byddwn yn parhau i ystyried y cydbwysedd rhwng hydrinedd, ymgysylltiad, dibynadwyedd a dilysrwydd ym mhob cam o ddatblygu'r cymhwyster.

# ATODIAD

## Gwybodaeth allweddol o'r Meini Prawf Cymeradwyo

Daeth y wybodaeth sy'n dilyn yn syth o [Feini Prawf Cymeradwyo - TGAU Y Gwyddorau \(Dwyradd\)](#) Cymwysterau Cymru - ac mae'n rhaid i'n cymhwyster ni fodloni'r gofynion hyn.

### Pwrpas

1. Rhaid i **TGAU Y Gwyddorau (Dwyradd)**:
  - 1.1. gael ei dylunio'n bennaf ar gyfer *Dysgwyr* rhwng 14 ac 16 oed
  - 1.2. adeiladu ar y dealltwriaeth gysyniadol y mae *Dysgwyr* wedi'i datblygu drwy eu haddysg rhwng 3 ac 14 oed
  - 1.3. cefnogi addysgu a dysgu drwy ddarparu cynnwys ac asesiadau sy'n eang, yn heriol, yn berthnasol ac yn ddeniadol ac sy'n cysylltu â'r Cwricwlwm i Gymru ac yn ei gefnogi, gan gynnwys ei bedwar diben
  - 1.4. galluogi *Dysgwyr* i ddatblygu sylfaen gref o wybodaeth, sgiliau a dealltwriaeth sy'n cefnogi dilyniant i astudio ôl-16 (gan gynnwys cymwysterau TAG Gwyddoniaeth mewn Bioleg, Cemeg a Ffiseg) ac sy'n eu paratoi ar gyfer bywyd, dysgu a gwaith
  - 1.5. darparu gwybodaeth ystyrlon, deg a chywir am gyflawniad *Dysgwyr* mewn pwnc sy'n amlygu'r hyn y mae *Dysgwyr* yn ei wybod, yn ei ddeall ac yn gallu ei wneud
2. Rhaid i'r fanyleb ar gyfer **TGAU Y Gwyddorau (Dwyradd)** fynegi'n glir, er bod y cymhwyster hwn wedi'i ddylunio i gefnogi dilyniant uniongyrchol i gymwysterau TAG Gwyddoniaeth, y bydd hefyd yn darparu rhaglen astudio briodol a gafaelgar i *Ddysgwyr* nad ydynt efallai'n dewis symud ymlaen i astudio gwyddoniaeth ymhellach.

### Nodau

3. Rhaid i **TGAU Y Gwyddorau (Dwyradd)**:
  - 3.1. ganiatáu i *Ddysgwyr* archwilio amrywiaeth o wybodaeth, sgiliau a dealltwriaeth mewn perthynas â'r gwyddorau
  - 3.2. darparu cyfleoedd i *Ddysgwyr* gael eu hasesu mewn amrywiaeth o gyd-destunau perthnasol a deniadol
4. Rhaid i **TGAU Y Gwyddorau (Dwyradd)** gefnogi *Dysgwyr* i:
  - 4.1. ddangos gwybodaeth a dealltwriaeth o wahanol feysydd gwyddoniaeth, gan gynnwys bioleg, cemeg a ffiseg
  - 4.2. deall sut mae gwahanol feysydd gwyddoniaeth yn berthnasol iddynt yn bersonol, yn lleol, yn genedlaethol ac yn rhyngwladol
  - 4.3. archwilio'r cysylltiadau rhwng gwahanol destunau dysgu o fewn pob disgyblaeth a rhyngddynt
  - 4.4. datblygu'r sgiliau i gwestiynu syniadau gwyddonol, gan ddefnyddio meddwl beirniadol a chreadigol i ddatrys problemau
  - 4.5. datblygu amrywiaeth o sgiliau ymholi, gan eu galluogi i fireinio ffyrdd o weithio yn llwyddiannus
  - 4.6. deall perthnasoedd rhwng data, tystiolaeth a chasgliadau trwy ddadansoddiadau ac ymchwil feintiol ac ansoddol
  - 4.7. deall a gwerthuso modelau gwyddonol
  - 4.8. deall, gwerthuso a herio dulliau, modelau, tystiolaeth a chasgliadau gwyddonol
  - 4.9. defnyddio sgiliau ac offer mathemategol, cyfathrebu a digidol wrth ddatblygu gwybodaeth a sgiliau gwyddonol

- 4.10. gwerthfawrogi'r rôl a chwaraeir gan foesau, moeseg, cynaliadwyedd ac agweddau eraill ar wneud penderfyniadau wrth gymhwyso gwyddoniaeth

### Amcanion Asesu

18. Rhaid i'r asesiad o'r wybodaeth, y ddealltwriaeth a'r sgiliau sydd eu hangen yn y cymhwyster dargedu'r amcanion asesu canlynol yn unol â'r pwysoli a nodir, o fewn goddefiant o +/- 5 pwynt canrannol.

<b>AA1</b>	Arddangos gwybodaeth a dealltwriaeth o syniadau, prosesau, technegau a gweithdrefnau gwyddonol.	25%
<b>AA2</b>	Defnyddio gwybodaeth a dealltwriaeth o syniadau, prosesau, technegau a gweithdrefnau gwyddonol	50%
<b>AA3</b>	Dadansoddi, dehongli a gwerthuso gwybodaeth, prosesau, technegau a gweithdrefnau gwyddonol	25%

### Cynllun asesu

19. Rhaid i'r cymhwyster **TGAU Y Gwyddorau (Dwyradd)** fod yn unedol.
20. Rhaid i'r cymhwyster **TGAU Y Gwyddorau (Dwyradd)** ddangos yr ystod yng nghyfran y marciau a ddyrennir i bob amcan asesu ac i bob uned.
21. Rhaid i'r asesiadau arholiad ar gyfer cymhwyster **TGAU Y Gwyddorau (Dwyradd)** fod wedi'u haenu.
22. Rhaid i'r asesiadau arholiad ar gyfer cymhwyster **TGAU Y Gwyddorau (Dwyradd)** ganiatáu i *Ddysgwyr* gyflawni'r graddau canlynol ym mhob haen:  
 22.1. haen uwch – A\*-D  
 22.2. haen sylfaenol – C-G
23. Rhaid i'r corff dyfarnu nodi a fydd yr asesiad ar ymholiad gwyddonol yn cael ei haenu.
24. Rhaid i'r cymhwyster **TGAU Y Gwyddorau (Dwyradd)** gynnwys y trefniadau asesu canlynol:  
 24.1. chwe arholiad sy'n cyfrif am 90% o'r cymhwyster:  
 24.1.1. rhaid cael dau arholiad ar gyfer pob un o ddisgyblaethau gwyddoniaeth bioleg, cemeg a ffiseg  
 24.1.2. lle bo'n briodol, rhaid i gwestiynau fod yn seiliedig ar gyd-destunau bywyd go iawn perthnasol a deniadol  
 24.1.3. lle bo'n briodol, rhaid i'r corff dyfarnu gynnwys cyd-destunau sy'n ymwneud â mwy nag un ddisgyblaeth wyddonol. Rhaid i'r wybodaeth, y ddealltwriaeth a'r sgiliau sydd eu hangen i ateb y cwestiwn ymwneud â'r ddisgyblaeth sy'n cael ei hasesu yn unig  
 24.1.4. yn gyffredinol, rhaid i'r ddau arholiad ar gyfer pob un o'r disgyblaethau gwyddoniaeth gyfrannu 30% at radd gyffredinol y cymhwyster  
 24.1.5. rhaid i'r arholiad cyntaf ym mhob disgyblaeth fod ar gael i'w sefyll ar ddiwedd Blwyddyn 10

- 24.1.6. rhaid i'r ail arholiad ym mhob disgyblaeth gynnwys cwestiynau sy'n galluogi Dysgwyr i ddangos eu gwybodaeth a'u dealltwriaeth o'r perthnasoedd a'r cysylltiadau rhwng gwahanol destunau yn y ddisgyblaeth honno. Rhaid i'r cwestiynau hyn dynnu ar y testunau a nodir yn y fanyleb at y pwrpas hwn yn unig.
  - 24.1.7. rhaid i'r ail arholiad ym mhob disgyblaeth fod â phwysoliad uwch na'r arholiad cyntaf ym mhob disgyblaeth
  - 24.1.8. rhaid i bob arholiad gael ei osod a'i farcio gan y corff dyfarnu
- 24.2. Asesiad o ymholiad gwyddonol sy'n cyfrif am 10% o'r cymhwyster:
- 24.2.1. rhaid i'r asesiad hwn ei wneud yn ofynnol i Ddysgwyr gwblhau o leiaf un dasg ymarferol
  - 24.2.2. rhaid i'r asesiad hwn asesu'r sgiliau ymholi gwyddonol sy'n ymwneud â gwaith ymarferol, yn ogystal ag ystod o'r sgiliau ymholi gwyddonol eraill a nodir yn adran 9
  - 24.2.3. bob blwyddyn, rhaid i'r corff dyfarnu gynnig o leiaf un dasg ar gyfer pob un o bynciau bioleg, cemeg a ffiseg y gall *Canolfannau* eu dewis
  - 24.2.4. rhaid i bob tasg fod yn seiliedig ar gyd-destun perthnasol a deniadol sy'n ymwneud ag o leiaf dwy o'r disgyblaethau gwyddoniaeth
  - 24.2.5. rhaid i'r corff dyfarnu nodi faint o dasgau y mae'n rhaid i bob *Dysgwr* eu cwblhau
  - 24.2.6. rhaid i'r asesiad hwn gael ei osod a'i farcio gan y corff dyfarnu
  - 24.2.7. rhaid i'r corff dyfarnu nodi hyd yr asesiad ymarferol a'r cyfnod y mae'n rhaid i *Ddysgwyr* ei gymryd yn eu blwyddyn olaf o astudio
25. Rhaid i sgiliau ymholi gwyddonol fod yn nodwedd o'r asesiad ar gyfer pob uned.
26. Rhaid i'r corff dyfarnu nodi ei reolau o ran ailsefyll ac ailgyflwyno ar gyfer cymhwyster **TGAU Y Gwyddorau (Dwyradd)** yn unol â'r *Amodau a Gofynion TGAU Cenedlaethol*.